# 'Trosglwyddo' Hwb i flwyddyn academaidd 2026 i 2027

Paratoi cyfrifon Hwb eich ysgol ar gyfer dechrau'r tymor.

Mae canllaw ar gyfer trosglwyddo cyfrifon Hwb i ysgolion ac awdurdodau lleol ar gael yng nghanolfan gymorth Hwb.

Mae'r broses o symud cyfrifon a data Hwb o un flwyddyn academaidd i'r llall yn awtomatig. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ysgolion ddiweddaru data dysgwyr a staff yn eu System Gwybodaeth Reoli (MIS) mewn da bryd fel bod cyfrifon Hwb yn barod ar gyfer defnyddwyr ar ddechrau'r tymor.

Mae hefyd yn hanfodol bod cleientiaid darparu Hwb yn rhedeg yn rheolaidd drwy gydol gwyliau'r haf. Rhaid i ysgolion sy'n defnyddio SIMS neu'r Ganolfan Athrawon drefnu bod eu cleient darparu yn rhedeg ar 29 Awst a chyn diwrnod cyntaf y tymor**.**

Bydd y dyddiadau'n berthnasol i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

Rhaid i bob ysgol gwblhau eu gweithdrefnau diwedd blwyddyn **cyn** dydd Gwener 7 Awst 2026 i baratoi ar gyfer trosglwyddo cyfrifon Hwb.

## Dyddiadau allweddol a chamau gweithredu y mae'n rhaid i ysgolion eu cymryd

## Dydd Sul 31 Mai 2026

### Cam gweithredu Hwb

Bydd Hwb yn diffodd diweddariadau'r system gwybodaeth reoli ar gyfer Microsoft Teams, Google Classroom ac Apple Classroom.

### Rheswm

Er mwyn caniatáu i ysgolion sy'n dechrau eu hamserlenni'n gynnar aseinio grwpiau'r flwyddyn bresennol i ddosbarthiadau'r flwyddyn nesaf.

### Effaith yn yr ysgol

Ni fydd unrhyw newidiadau i grŵp neu ddosbarth a wneir yn system gwybodaeth reoli ysgol ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu prosesu na'u hadlewyrchu yn Hwb.

### Cam gweithredu sydd ei angen gan yr ysgol

O ddydd Llun 1 Mehefin, bydd angen gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i grŵp neu ddosbarth â llaw yn Microsoft Teams, Google Classroom ac Apple Classroom ym Mhorth Rheoli Defnyddwyr Hwb.

### Cam gweithredu Hwb (yn effeithio ar ddysgwyr ym Mlynyddoedd 11, 12 a 13 yn unig)

Bydd Hwb yn diffodd y cam i analluogi cyfrifon Hwb ar gyfer dysgwyr sydd â dyddiad gadael ar ôl 1 Mehefin 2026 yn system gwybodaeth reoli yr ysgol.

### Rheswm

Er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn y grwpiau blwyddyn hyn yn gallu parhau i gael mynediad at eu negeseuon e-bost, ffeiliau, gwaith ysgol ac apiau addysg tan 28 Awst.

### Effaith yn yr ysgol

Er bod gan ddysgwyr yn y grwpiau blwyddyn hyn ddyddiad gadael yn y system, byddant yn dal i ymddangos fel 'Gweithredol' ym Mhorth Rheoli Defnyddwyr Hwb. Bydd y dysgwyr yr effeithir arnynt yn gallu cael mynediad i'w cyfrifon a'u gwybodaeth gysylltiedig yn Hwb tan 28 Awst.

### Y cam gweithredu sydd ei angen gan yr ysgol

Rhaid i ysgolion roi gwybod i ddysgwyr yn y grwpiau blwyddyn hyn y bydd eu cyfrif Hwb yn parhau i fod yn weithredol tan 28 Awst, ac ar ôl y dyddiad hwn byddant yn colli mynediad i'w negeseuon e-bost, ffeiliau a gwaith ysgol. Os yw'r dysgwyr yr effeithir arnynt yn dymuno cadw unrhyw beth sydd yn eu cyfrif Hwb, bydd angen iddynt ei lawrlwytho cyn 28 Awst.

Bydd cyfrifon Hwb dysgwyr sy'n ailymuno â'r un ysgol, neu'n ymuno ag unrhyw ysgol arall a gynhelir yng Nghymru ar ôl gwyliau'r haf, yn cael eu hail-alluogi'n awtomatig unwaith y cânt eu derbyn ar y gofrestr yn system wybodaeth reoli ysgol a bod y cleient darparu wedi rhedeg yn llwyddiannus.

Dylai ysgolion sy'n dymuno analluogi cyfrifon dysgwyr unigol gysylltu â Desg Wasanaeth Hwb.

## Dydd Sul 5 Gorffennaf 2026

### Cam gweithredu Hwb

Bydd Hwb yn diffodd y cam i analluogi cyfrifon Hwb ar gyfer yr holl ddysgwyr a staff sydd â dyddiad gadael ar ôl 5 Gorffennaf 2026 yn system gwybodaeth reoli’r ysgol.

### Rheswm

Er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu parhau i gael mynediad at eu negeseuon e-bost, ffeiliau, gwaith ysgol ac apiau addysg tan 28 Awst.

### Effaith yn yr ysgol

Er bod gan ddysgwyr ddyddiad gadael yn y system gwybodaeth reoli, byddant yn dal i ymddangos fel 'Gweithredol' ym Mhorth Rheoli Defnyddwyr Hwb.

### Y cam gweithredu sydd ei angen gan yr ysgol

Rhaid i ysgolion roi gwybod i ddysgwyr na fyddant yn ailymuno ag ysgol a gynhelir yng Nghymru y bydd eu cyfrif Hwb yn parhau i fod yn weithredol tan 28 Awst, ac ar ôl y dyddiad hwn y byddant yn colli mynediad i'w negeseuon e-bost, eu ffeiliau a'u gwaith ysgol. Os yw'r dysgwyr yr effeithir arnynt yn dymuno cadw unrhyw beth sydd yn eu cyfrif Hwb, bydd angen iddynt ei lawrlwytho cyn 28 Awst.

Dylai ysgolion sy'n dymuno analluogi cyfrifon dysgwyr unigol gysylltu â Desg Wasanaeth Hwb.

## Dydd Gwener 17 Gorffennaf 2026

### Cam gweithredu Hwb

Bydd Hwb yn diffodd y broses o gysoni amserlenni ar gyfer staff a dysgwyr.

### Rheswm

Er mwyn stopio prosesu unrhyw ddiweddariadau i'r amserlen a wneir yn y system gwybodaeth reoli.

### Effaith yn yr ysgol

Ni fydd gwybodaeth am amserlenni staff a dysgwyr yn diweddaru yng nghalendr Outlook na Google.

### Y cam gweithredu sydd angen i'r ysgol ei gymryd

Nid oes angen cymryd unrhyw gamau, fodd bynnag, dylai staff a dysgwyr fod yn ymwybodol na fydd newidiadau i'r amserlen a wneir yn system gwybodaeth reoli yr ysgol yn cael eu hadlewyrchu yn eu calendr Outlook na Google ar Hwb nes bod y broses ddiweddaru yn cael ei throi ymlaen eto ar ddechrau'r tymor newydd.

# Dydd Gwener 7 Awst 2026

Rhaid i ysgolion fod wedi cwblhau eu gweithdrefnau diwedd blwyddyn erbyn dydd Gwener 7 Awst 2026.

## Cam gweithredu Hwb

Bydd Hwb yn archifo pob Microsoft Teams a Google Classroom a grëwyd ym Mhorth Rheoli Defnyddwyr Hwb ar gyfer y flwyddyn academaidd 2025 i 2026.

Bydd Asesiadau Di-Arholiad (NEA's) yn dod yn rhai y gellir eu darllen yn unig a bydd rheolaethau'r Porth Rheoli Defnyddwyr yn cael eu dileu.

## Rheswm

Mae Microsoft Teams a Google Classrooms wedi'u cynllunio i'w defnyddio am un flwyddyn academaidd. Wedi hynny, dim ond i'w darllen yn unig y bydd modd cael mynediad i Teams a Classrooms y flwyddyn gyfredol.

Mae asesiadau NEA hefyd wedi'u cynllunio i'w defnyddio am un flwyddyn academaidd. Wedi hynny bydd mynediad i NEA y flwyddyn gyfredol yn caniatáu darllen yn unig i'r staff a oedd â mynediad. Bydd mynediad dysgwyr yn cael ei ddileu.

## Effaith yn yr ysgol

Bydd aelodaeth dosbarth yn y flwyddyn academaidd gyfredol yn cael ei rewi a'i gadw.

Bydd aelodaeth a gwaith asesiadau NEA yn cael eu cadw ond dim ond i'r athro NEA y byddant ar gael.

## Y cam gweithredu sydd angen i'r ysgol ei gymryd

Bydd gweinyddwyr a staff Hwb yr ysgol yn gallu adfer unrhyw un o'u Microsoft Teams a Google Classrooms yn ôl yr angen i'w defnyddio yn y flwyddyn academaidd newydd. Fodd bynnag, bydd y Teams a'r Classrooms hyn 'heb eu rheoli' (sy'n golygu na fyddant bellach yn gysylltiedig â data'r dosbarth cyfredol yn system gwybodaeth reoli yr ysgol).

Er mwyn cael mynediad at NEA o flynyddoedd blaenorol, gall yr athro ddewis y flwyddyn ofynnol yn y Porth Rheoli Defnyddwyr, dewis y dosbarth NEA a chlicio ar y botwm dolen i fynd i'r safle SharePoint.

Ni ddylid creu unrhyw Microsoft Teams neu Google Classrooms ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd tan 10 Awst 2026, ar y cynharaf. Bydd creu cyn y dyddiad hwn yn arwain at archifo'r Teams neu'r Classrooms newydd.

Mae canllawiau ar gael ar sut i adfer Microsoft Teams a Google Classrooms.

# Dydd Llun 10 Awst 2026

O'r wythnos sy'n dechrau 10 Awst 2026, rhaid i gleient sy'n darparu Hwb fod yn rhedeg yn rheolaidd drwy gydol gwyliau'r ysgol ac, yn hollbwysig, ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

### Cam gweithredu Hwb

Bydd Hwb yn dechrau prosesu data'r system gwybodaeth reoli ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, gan gynnwys cofnodion dysgwyr a staff gyda dyddiadau cychwyn hyd at (ac yn cynnwys) dydd Gwener 4 Medi 2025.

### Rheswm

Er mwyn dechrau prosesu data'r ysgol at ddibenion defnyddio Hwb, yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

### Effaith yn yr ysgol

Ni fydd staff sydd â dyddiad gadael yn y system gwybodaeth reoli bellach yn ymddangos ym Mhorth Rheoli Defnyddwyr Hwb ar ôl eu dyddiad gadael.

Bydd dyddiadau gadael a dechrau dysgwyr yn cael eu prosesu fel eu bod yn ymddangos yn eu hysgol gywir ar gyfer y flwyddyn academaidd 2026 i 2027.

### Y cam gweithredu sydd angen i'r ysgol ei gymryd

Unwaith y bydd dysgwyr yn ymddangos yn eu dosbarthiadau newydd ym Mhorth Rheoli Defnyddwyr Hwb, gall ysgolion greu Microsoft Teams, Google Classrooms ac Apple Classrooms ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd (ar ôl 10 Awst 2026).

# Dydd Llun 17 Awst 2026

Bydd Cysoni Amserlenni yn cael ei droi ymlaen ar gyfer staff

### Cam gweithredu Hwb

Bydd amserlenni staff ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd yn cael eu prosesu ac ar gael i staff eu gweld o 17 Awst 2026 yn eu calendrau Outlook neu Google ar Hwb. Mae hyn yn dibynnu a yw ysgolion yn cwblhau gwybodaeth am amserlenni yn y system gwybodaeth reoli, yn rhedeg y cleient darparu'n llwyddiannus ac yn galluogi 'Cysoni Amserlenni' ym Mhorth Rheoli Defnyddwyr Hwb,

Bydd cysoni amserlenni'r dysgwyr yn dechrau digwydd o ddydd Gwener 11 Medi 2026.

### Rheswm

Er mwyn rhoi amserlenni ysgol y staff yn eu calendrau.

### Effaith yn yr ysgol

Bydd gwybodaeth am yr amserlen o SIMS yn cael ei harddangos yng nghalendrau staff yn Outlook neu Google ar Hwb.

### Y cam gweithredu sydd angen i'r ysgol ei gymryd

Rhaid i weinyddwr Hwb yn yr ysgol ffurfweddu Cysoni Amserlen ar gyfer staff ym Mhorth Rheoli Defnyddwyr Hwb er mwyn i'r nodwedd hon weithio.

## Dydd Gwener 28 Awst 2026

### Proses Hwb

Bydd Hwb yn prosesu dyddiadau gadael yr holl ddysgwyr a staff o fewn Porth Rheoli Defnyddwyr Hwb.

### Rheswm

Er mwyn analluogi cyfrif pob dysgwr sydd â dyddiad gadael. **Bydd cyfrifon sydd wedi'u hanalluogi'n cael eu dileu ar ôl 12 mis.**

### Effaith yn yr ysgol

Bydd cyfrifon Hwb dysgwyr sydd wedi gadael yr ysgol i ymuno ag ysgol arall yng Nghymru yn cael eu hanalluogi ac yna'n cael eu hail-alluogi pan fydd y dysgwr yn cael ei ychwanegu at system gwybodaeth reoli eu hysgol newydd.

Bydd cyfrifon Hwb dysgwyr sydd wedi gadael ysgol, ond nad ydynt wedi ymuno ag ysgol arall a gynhelir yng Nghymru, yn cael eu hanalluogi.

### Y cam gweithredu sydd angen i'r ysgol ei gymryd

Dim.

## Dydd Mawrth 1 Medi 2026

### Proses Hwb

Bydd trwyddedau Google T&L ac Adobe yn cael eu rhoi ar ddangosfwrdd yr ysgol ar Hwb i'w dyrannu i ddefnyddwyr.

### Rheswm

Mae trwyddedau Google T&L ac Adobe yn cael eu prynu gan ysgolion bob blwyddyn. Bydd y trwyddedau newydd sydd wedi'u prynu ar gael o'r dyddiad hwn.

### Effaith yn yr ysgol

Os oes llai o drwyddedau wedi'u prynu nag yn y flwyddyn flaenorol, bydd angen ailddyrannu'r trwyddedau sydd ar gael i ddefnyddwyr fel y bo'n briodol.

### Y cam gweithredu sydd angen i'r ysgol ei gymryd

Bydd angen i ysgolion adolygu a dyrannu trwyddedau.

## Dydd Sadwrn 29 Awst 2026

Bydd angen i ysgolion redeg eu system gwybodaeth reoli dros y penwythnos hwn i sicrhau bod yr holl ddata'n cael ei brosesu ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd.

## Dydd Mawrth 1 Medi 2026

Diwrnod cyntaf tymor yr hydref a dechrau blwyddyn academaidd 2026 i 2027.

## Dydd Gwener 11 Medi 2026

Bydd Cysoni Amserlenni'n cael ei droi ymlaen ar gyfer dysgwyr

### Proses Hwb

Bydd amserlenni dysgwyr ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd yn cael eu prosesu ac ar gael i ddysgwyr eu gweld o 12 Medi 2026 yn eu calendrau Outlook neu Google ar Hwb. Mae hyn yn dibynnu a yw ysgolion yn cwblhau gwybodaeth am amserlenni yn y system gwybodaeth reoli, yn rhedeg y cleient darparu'n llwyddiannus ac yn galluogi 'Cysoni Amserlenni' ym Mhorth Rheoli Defnyddwyr Hwb,

### Rheswm

Er mwyn llenwi calendrau dysgwyr gyda'u hamserlen ysgol o system gwybodaeth reoli yr ysgol.

### Effaith yn yr ysgol

Bydd gwybodaeth am yr amserlen o'r system gwybodaeth reoli yn cael ei harddangos mewn calendrau dysgwyr yn Outlook neu Google ar Hwb.

### Y cam gweithredu sydd angen i’r ysgol ei gymryd

Rhaid ffurfweddu Cysoni Amserlen ar gyfer dysgwyr ym Mhorth Rheoli Defnyddwyr Hwb er mwyn i'r nodwedd hon weithio.

## Dydd Gwener 11 Medi 2026

### Cam gweithredu Hwb

Bydd Hwb yn troi diweddariadau’r system gwybodaeth reoli ymlaen ar gyfer Microsoft Teams, Google Classroom ac Apple Classroom.

### Rheswm

Bydd ysgolion yn gallu creu Teams a Classrooms newydd gyda'r data diweddaraf gan y system gwybodaeth reoli.

### Effaith yn yr ysgol

Bydd unrhyw newidiadau i grŵp neu ddosbarth a wneir yn system gwybodaeth reoli yr ysgol yn cael eu prosesu a'u hadlewyrchu yn Hwb.

### Y cam gweithredu sydd angen i’r ysgol ei gymryd

Bydd ysgolion yn gallu creu Teams a Classrooms ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd

## Dydd Llun 14 Medi 2026

Dylai'r trosglwyddiad ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd fod wedi'i gwblhau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os oes angen cymorth arnoch, dilynwch eich trefniadau cymorth TG lleol yn yr ysgol neu trwy eich awdurdod lleol yn y lle cyntaf. Mae cyngor ac arweiniad hefyd ar gael gan Ddesg Wasanaeth Hwb.

E-bost: support@hwbcymru.net